**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion Cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2017 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10 o'r gloch y bore.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cyng. M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. M Holland | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. P R Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. P Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); R Fairhead a G Brandrick (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); S Millington (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); C Nott (Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu Dros Dro); G Roberts (Uwch Reolwr Safonau Proffesiynol a Gwasanaeth); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| | |
|---|---|
| Y Cyng. B Cowie | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. R O Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim

2 RHYBUDD O FATERION BRYS

2.1 Dim

3 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 24 HYDREF 2016

3.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

3.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

4 MATERION YN CODI

4.1 Nid oedd dim materion yn codi.

5 MONITRO PERFFORMIAD

5.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod am weithgarwch y Gwasanaeth ac am fonitro perfformiad mewn perthynas ag amcanion gwella. Da oedd nodi bod monitro perfformiad yn nhrydydd chwarter blwyddyn ariannol 2016-17 yn gadarnhaol ar y cyfan.

5.2 Cafwyd llai o anafiadau o ganlyniad i ddigwyddiadau tân, ac mae mwy o bobl yn gallu gadael eu heiddo heb gymorth; ystyrir bod modd priodoli'r rhain yn rhannol i'r cyngor ataliol a roddir gan y GTA fel rhan o'r archwiliadau diogelwch yn y cartref (ADC).

5.3 I ateb cwestiwn am atgyfeiriadau ADC gan sefydliadau sy'n bartneriaid inni, cadarnhawyd bod cynllun treialu a sefydlwyd yn ddiweddar yn Wrecsam, lle mae ymarferwyr yn gosod offer gwella diogelwch ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig, yn ogystal â chynnal ADT, wedi bod yn llwyddiant ac mae'r Gwasanaeth wedi gallu cyrraedd pobl na fyddai fel arall yn cael cysylltiad â'r GTA. Dyma brosiect a ariennir ar y cyd â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r awdurdod lleol; mae'r trafodaethau'n parhau â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu i weld a oes cyllid i ymestyn y prosiect i ardaloedd awdurdodau lleol eraill.

5.4 Roedd yr Aelodau'n cydnabod bod gostyngiad yn nifer y digwyddiadau tân bwriadol, ac yn nodi bod DVD o'r enw 'Llosgi eich Dyfodol' yn cael ei lansio ar 17 Chwefror i dynnu sylw pellach at beryglon llosgi bwriadol. Er bod y DVD yn un penodol iawn ac yn lleol i ardal Wrecsam, caiff ei ddangos mewn ysgolion ledled Cymru. Mae'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol yn gweithio'n agos â Heddlu Gogledd Cymru ar fater atal tanau.

5.5 Bu mymryn o gynnydd yn nifer y digwyddiadau gwasanaethau arbennig heblaw gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, ond roedd hyn yn gynnydd i'w groesawu oherwydd y ffaith fod y ffigwr nawr yn cynnwys digwyddiadau pryd y mae timau cymorth cymunedol yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn cael eu galw gan y Gwasanaeth Ambiwlans i gynorthwyo pobl sydd wedi cael codwm yn eu cartrefi, digwyddiadau cyd-ymateb a chynorthwyo'r heddlu gyda digwyddiadau 'ar goll o gartref'.

5.6 Roedd nifer y galwadau diangen gan larymau tân awtomatig ar safleoedd annomestig wedi cynyddu oherwydd galwadau gan ysbytai lle mae llawer o waith adeiladu wrthi'n digwydd. Fodd bynnag, dim ond un peiriant sy'n cael ei anfon erbyn hyn, o gymharu â'r ddau beiriant a oedd yn arfer cael eu hanfon cyn newid y polisi yn y maes hwn.

5.7 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.**

6 AMCANION GWELLA A LLESIANT 2017-18

6.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o'r ymateb i ymgynghoriad yr Awdurdod ynglŷn â'i amcanion gwella a llesiant drafft ar gyfer 2017-18; a chynnig sail i Gynllun Gwella a Llesiant drafft terfynol ar gyfer 2017-18 i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod llawn yn ei gyfarfod nesaf ar 20 Mawrth 2017.

6.2 Cafodd y rhan fwyaf o'r ymatebion eu gwneud drwy holiadur ar-lein, gyda 164 o ymatebwyr yn dewis ychwanegu sylwadau pellach. Fe wnaeth dau ddeg saith o sefydliadau ac unigolion gyflwyno ymatebion ysgrifenedig drwy e-bost neu'r post. Roedd nifer o'r ymatebion ysgrifenedig yn codi pryderon tebyg neu'r un pryderon, a llawer ohonynt yn adleisio trafodaethau'r aelodau eu hunain yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub fis Mehefin diwethaf.

6.3 Roedd themâu allweddol yr ymatebion ysgrifenedig hynny yn cynnwys y twf a ragwelir yn y boblogaeth a'r ystâd ddiwydiannol fawr yn ardal Wrecsam, Carchar EM Berwyn, achosion o losgi bwriadol, a mynd at ddigwyddiadau dros ffin. Fe wnaeth yr aelodau nodi ymatebion y swyddogion i'r themâu allweddol hyn, fel yr oedd yn atodiad 2 i'r adroddiad i'r Panel Gweithredol. Ar ôl mynd â'r aelodau drwy ymatebion y swyddogion i'r themâu allweddol, fe wnaeth y PST atgoffa'r Aelodau gan y PST fod y cynnig yn dilyn chwe mis o drafodaethau ymysg yr aelodau ac mai dyma'r opsiwn lleiaf annymunol o blith yr opsiynau a oedd ar gael i arbed y £900,000 sydd ei angen erbyn 2019-20.

6.4 Mynegodd y Cyng. Pemberton a'r Cyng. Lowe bryder am y cynnig i gael gwared ar beiriant o Wrecsam. Ond roedd y Cyng. McGuill o'r farn y dylai'r Awdurdod fod yn pwysleisio'r pwynt fod y GTA yn ad-drefnu ei ffordd o weithio, yn ail-ddylunio'r gwasanaeth ac y bydd Wrecsam yn debyg i ardaloedd eraill yng Ngogledd Cymru, megis y Rhyl a Glannau Dyfrdwy. Roedd y Cyng. Holland yn bryderus nad oedd y cyhoedd yn deall y neges gadarnhaol ynglŷn â'r gwaith ataliol, a'r gostyngiad wedi hynny yn nifer y tanau, ac nad yw cynnydd yn y boblogaeth yn cyfateb o reidrwydd i gynnydd yn y digwyddiadau tân.

6.5 I ddilyn y drafodaeth ynglŷn ag amcanion yr Awdurdod ar gyfer y dyfodol a'r materion a ragwelir mewn perthynas â'r gyllideb, gofynnodd y Cadeirydd i'r PST roi gwybod i'r aelodau am y 'Papur Gwyn: Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad'. Cyfeiriodd y PST at adran 4.3 o'r ddogfen sy'n ymwneud yn benodol â'r awdurdodau tân ac achub a chrybwyllodd hefyd lythyr a ddaeth gan yr Ysgrifenyddion y Cabinet, Carl Sargeant AC a Mark Drakeford AC. Nododd yr aelodau y byddai'r swyddogion yn llunio ymateb i gael cymeradwyaeth yr aelodau.

6.6 **PENDERFYNWYD cymeradwyo bod Cynllun Gwella a Llesiant drafft yn cael ei lunio ar gyfer 2017-18 ar sail y pedwar amcan gwella a ddangosir isod, ac yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ym Mawrth 2017 a'i gyhoeddi cyn 1 Ebrill 2017:**

(i) cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel drwy atal marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi;

(ii) mabwysiadu strategaeth ariannol dair blynedd sy'n cyfuno'r defnydd o gronfeydd wrth gefn, cynnydd yn y cyfraniadau ariannol a lleihau gwasanaethau;

(iii) ail-falansio adnoddau'r Awdurdod i gyfateb i risg drwy weithredu model o ddarparu adnoddau sy'n sicrhau bod o leiaf 20 o griwiau tân wedi'u lleoli'n strategol yng Ngogledd Cymru ar gael ar adegau o risg cymharol is, ac o leiaf 38 ar gael ar adegau o risg cymharol uwch; a

(iv) ymchwilio i gyfleoedd i amrywio rôl diffoddwyr tân a chynnig gwasanaethau ychwanegol i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.

**Roedd y Cyng. P Pemberton yn dymuno cofnodi ei bleidlais yn erbyn y penderfyniad, ac roedd y Cyng. G Lowe yn dymuno atal ei bleidlais.**

7 Y GOFRESTR RISGIAU STRATEGOL

7.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad cryno a oedd yn tynnu sylw at y prif risgiau strategol i'r Awdurdod. Atgoffwyd yr aelodau eu bod eisoes wedi cymeradwyo'r polisi rheoli risgiau strategol, sy'n diffinio risg strategol fel 'digwyddiad a fyddai'n effeithio ar y gallu i wireddu canlyniadau y mae'r Awdurdod wedi'u cynllunio a/neu gyflawni ei swyddogaethau craidd'. Nodwyd bod y swyddogion yn mynd ati'n gyson i adolygu a diweddaru'r gofrestr risgiau ac ail-sgorio'r risgiau fel y bo'n briodol.

7.2 Mae'r ddau risg mwyaf yr un rhai ag a ddywedwyd wrth yr Aelodau o'r blaen: sef ymosodiad ar systemau cyfrifiadurol y Gwasanaeth a lefel cadernid y Gwasanaeth petai, yn sydyn, yn colli staff â gwybodaeth arbenigol a/neu brofiad o fusnes ATAGC; mae'r ddau beth yma'n parhau yn y categori risg 'uchel iawn'. Er mwyn ceisio lliniaru'r risg o golli gwybodaeth staff arbenigol, mae'r swyddogion yn datblygu cynghreiriau strategol â sefydliadau eraill. O ran systemau TGCh, mae archwiliad mewnol o ddiogeledd seiber wrthi'n cael ei gynnal, a bydd y canlyniadau'n cael eu hadrodd yn adroddiad blynyddol yr archwiliad mewnol 2016/17.

7.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd am y risgiau strategol sy'n wynebu'r Awdurdod.**

8 ADNODDAU YN ÔL RISG

8.1 Rhoddodd y PSTC Fairhead adroddiad cynnydd i'r aelodau am y cynllun treialu ar y mater o "sicrhau bod adnoddau'n cyfateb i'r risg" sy'n cael ei gynnal gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

8.2 Cafodd yr aelodau eu hatgoffa bod y cysyniad o gyfateb adnoddau i'r risg yn seiliedig ar ganlyniadau'r adolygiad o ofal tân a oedd yn dweud bod y risg yn amrywio yn ôl yr adeg o'r dydd. Gyda'r nos a thros nos, pan fo pobl yn cysgu, mae'r risg tân ar lefel uwch nag yn ystod y dydd. Felly, gellid darparu'n ddigonol ar gyfer y risg tân yng Ngogledd Cymru drwy gynnal o leiaf 20 o beiriannau tân yn ystod y dydd, pan welir bod y risg yn is, a chynnal o leiaf 38 o beiriannau tân gyda'r nos a thros nos, pan fo'r risg yn cynyddu. Defnyddir gwahanol systemau shifftiau criwiau, gan gynnwys diffoddwyr tân amser cyflawn gwledig sy'n hyblyg ac ar gael i'w lleoli ar fyr-rybudd, a diffoddwyr tân RDS sydd dros ben ar eu gorsaf eu hunain neu'r unig ddiffoddwyr tân sydd ar gael ar eu gorsaf eu hunain ac felly'n cael eu lleoli ar orsaf gerllaw i ychwanegu at y criw yn y fan honno.

8.3 Nodwyd bod y cynllun treialu'n gweithio'n dda ar y cyfan ond bod heriau yn ystod mis Rhagfyr oherwydd y gwyliau cyhoeddus, diwedd blwyddyn galendr gwyliau blynyddol, a salwch. Ond, yn dilyn ymgyrchoedd recriwtio a gynhaliwyd yn ddiweddar, mae diffoddwyr tân RDS sydd newydd gael eu hyfforddi yn dechrau ymuno â'u gorsafoedd lleol a rhagwelir y bydd y recriwtiaid newydd hyn yn gwella argaeledd gyda'r nos a thros nos ar y gorsafoedd hynny. Cynhelir adolygiad o'r cynllun treialu pan ddaw i ben ddiwedd mis Mawrth 2017.

8.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd a chael adroddiadau cynnydd bob chwe mis.**

9 CYDYMFFURFIO Â SAFONAU'R GYMRAEG

9.1 Cyflwynodd y PSTC Fairhead yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y cynnydd mewn perthynas ag adroddiad y Gwasanaeth ar fater monitro'r Gymraeg 2015-16, ac yn briffio mewn perthynas â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

9.2 Atgoffwyd yr aelodau y bydd safonau'r Gymraeg, a reoleiddir gan Gomisiynydd y Gymraeg, yn dod i rym ar 30 Mawrth 2017 gan gymryd lle'r hen gynlluniau iaith. Mae'r Gwasanaeth wedi lansio ei ymgyrch 'Bwrwch Ati' i baratoi ar gyfer y safonau newydd, gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth a rhoi gwybod i'r staff beth yw eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r safonau.

9.3 **PENDERFYNWYD nodi:**

**(i) y cynnydd a wnaed mewn perthynas ag adroddiad blynyddol y Gwasanaeth 2015-16 a'i ymrwymiad i sicrhau bod y Gwasanaeth yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg ac yn monitro cynnydd yn y maes hwn;**

**(ii) bod y paratoadau yn eu lle i gyflawni gofynion Safonau newydd y Gymraeg a ddaw i rym ym Mawrth 2017.**

10 Y DIWEDDARAF AM LIFOGYDD

10.1 Cyflwynodd y PSTC Brandrick yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y sefyllfa o ran darparu adnoddau ar gyfer llifogydd ac argyfyngau eraill yn ymwneud â dŵr.

10.2 Cafodd yr aelodau wybod bod y GTAau yng Nghymru, yn Rhagfyr 2016, wedi cyflwyno achos busnes ar y cyd i ofyn am gymorth cyllid er mwyn cynnal gallu presennol yr adnoddau ar gyfer ymateb i lifogydd ac achub o ddŵr; mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r achos busnes, a bydd yn darparu cyllid, gwerth cyfanswm o £1.78 miliwn, i'r GTAau yng Nghymru ar gyfer 2016-17 a 2017-18 ar gyfer ymateb i lifogydd ac achub o ddŵr. Cymeradwywyd £780k i'w ddefnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol (2016-17). Cyfalaf yn bennaf yw'r cyllid, a chaiff ei ddefnyddio i ychwanegu at, ac adnewyddu, eitemau pwysig a gwerthfawr ledled Cymru. Fodd bynnag, ac yn arbennig yng Ngogledd Cymru, bydd y rhan fwyaf o'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i brynu pwmp cyfaint mawr (HVP). Gwelwyd, o brofiad mewn digwyddiadau mawr mewn llifogydd yn ddiweddar, fod angen hyn. Archebwyd uned HVP cyflawn, sy'n gynnwys y pwmp, podiau cyfarpar a phrif gerbyd symud, gan ddefnyddio'r cyllid y cymeradwywyd ei ddefnyddio yn 2016-17.

10.3 Nodwyd nad oedd unrhyw adborth ffurfiol wedi dod gan Lywodraeth Cymru hyd yma i ddilyn ymateb yr Awdurdod i'r ymgynghoriad ar osod dyletswydd statudol ar y ATAau yng Nghymru i ymateb i lifogydd ac argyfyngau eraill yn ymwneud â dŵr.

10.4 Roedd yr aelodau'n croesawu'r newyddion da a **PHENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a oedd yn yr adroddiad.**

11 CYNLLUN PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN 2015 – HER GYFREITHIOL I'R AMDDIFFYNIAD TROSIANNOL

11.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau am hynt yr her gyfreithiol ac yn tynnu sylw at y goblygiadau posibl i'r Awdurdod Tân ac Achub.

11.2 Yn 2015, cafodd y ddau gynllun pensiwn diffoddwyr tân, sef cynlluniau 1992 a 2006, eu cau gan y llywodraeth ganolog a chafodd yr holl ddiffoddwyr tân eu trosglwyddo i gynllun pensiwn newydd – sef cynllun pensiwn y diffoddwyr tân 2015. Cafodd rhai diffoddwyr tân, a oedd ymhellach ymlaen yn eu gyrfaoedd, hawl i aros yn eu cynllun pensiwn gwreiddiol dan drefniadau amddiffyniad trosiannol. Fe wnaeth Undeb yr FBU herio'r llywodraeth mewn perthynas â'r amddiffyniad trosiannol ar y sail ei fod yn gwahaniaethu ar sail oedran, gan ymgorffori hawliadau eraill hefyd ynglŷn â hil, rhywedd a chyflog cyfartal. Fe wnaeth Cyflogwyr Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub gynnig paratoi i reoli'r hawliadau hyn ar ran yr holl ATAau. Arweiniodd hyn at wrandawiad tribiwnlys cyflogaeth a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2017, ac nid yw'r canlyniad yn hysbys eto. Caiff yr Aelodau wybod yn y cyfarfod nesaf am unrhyw ddatblygiadau.

11.3 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**